# DRAFFT / DRAFT

**Cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Ngwesty'r 'Wild Pheasant', Llangollen, ar 24 Mehefin 2009 /** ***Minutes of the Wales Association of SACREs meeting held at the Wild Pheasant Hotel, Llangollen on 24 June, 2009***

**Yn Bresennol /** ***Present***

**Ynys Môn /** ***Anglesey***
Helen Roberts
Bethan James
Elwyn Jones

**Blaenau Gwent**
Gill Vaisey

**Pen-y-bont ar Ogwr /** ***Bridgend***
Carys Thomas
E J Evans

**Caerffili/** ***Caerphilly***
Michael Gray
David Brooks
Vicky Thomas

**Caerdydd /** ***Cardiff***
Caroline Neudegg
Martin Rawle

**Sir Gaerfyrddin /** ***Carmarthenshire***
Emlyn Dole
Mary Parry

**Ceredigion**
Mary Parry
Lyndon Lloyd
Wendy Dossett

**Conwy**
Eirian Pierce
Gavin Craigen

**Sir Ddinbych /** ***Denbighshire***
Mairwenna B Lloyd
Brian Huw Jones
Ann Davies
Mike Hatch
Sylvia Harris
Gavin Craigen
Heulwen Ellis
Morfudd Jones
Rodney Elms

**Sir y Fflint /** ***Flintshire***
Fred Gillmore
Gavin Craigen
Veronica Gay

**Gwynedd**
Bethan James
Aeron M Jones
W M Meredith

**Merthyr Tudful /** ***Merthyr Tydfil***
Carys Thomas

**Sir Fynwy /** ***Monmouthshire***
Gill Vaisey

**Castell-nedd Port Talbot /** ***Neath and Port Talbot***

**Casnewydd /** ***Newport***
Vicky Thomas

**Sir Benfro /** ***Pembrokeshire***

**Powys**
John Mitson
Christine Robinson

**Rhondda Cynon Taf**
Carys Thomas

**Abertawe /** ***Swansea***
Vicky Thomas

**Torfaen**
Vicky Thomas

**Bro Morgannwg /** ***Vale of Glamorgan***
Vicky Thomas

**Wrecsam /** ***Wrexham***
Vicky Barlow
Tania ap Siôn
Tom Wright
Barrie Price
Samantha Jesson

**Sylwedyddion /** ***Observers***
Leslie J Francis (St Mary's Centre)
Denize Morris (DCELLS)

| Cofnodion cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru a gynhaliwyd yng Ngwesty'r 'Wild Pheasant', Llangollen, ar 24 Mehefin 2009 | Minutes of the Wales Association of SACREs meeting held at the Wild Pheasant Hotel, Llangollen on 24 June, 2009 |
|---|---|
| 1. **Cyflwyniad a Chroeso** Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Joan Butterfield, Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych. Pwysleisiodd y Cynghorydd Butterfield bwysigrwydd gwaith CYSAG'au ym meysydd AG, addoli ar y cyd, a datblygiad ysbrydol. Canmolodd hefyd waith da CCYSAGauC, gan gynnwys ei deialog gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei chyflwyniadau, a'i symposia, ac anogodd yr aelodau i barhau â'u gwaith da.<br><br>2. **Adfyfyrio Tawel** Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod, a thynnodd sylw at yr Eisteddfod Ryngwladol a oedd yn cael ei chynnal yn Llangollen, at y dathliadau o enedigaeth John Calfin 500 mlynedd ynghynt, ac at golli Handel Morgan. Safodd yr aelodau am ychydig eiliadau i goffáu ei fywyd a'i gyfraniad at Addysg Grefyddol.<br><br>3. **Ymddiheuriadau** Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Christine Abbas, Helen Gibbon, Meinir Loader, Tegid Roberts, N.C. Richter, Nigel Steele-Mortimer, Rheinallt Thomas, Sue Cave, Jen Malcolm, Julie Pugh a David Williams, G. Grant.<br><br>4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 13 Mawrth, 2009** 5(d): Dylai 'Griffiths' ddarllen 'Davies'. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir.<br><br>5. **Materion yn Codi** Pwynt 5(b): Yr oedd Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, wedi cyhoeddi gwybodaeth ddiweddaredig a chywiriedig ynglŷn ag addoli ar y cyd mewn ysgolion, yng nghylchgrawn *Yr Athro* (Rhifyn 2, Ebrill 2009).Gofynnodd y Cadeirydd am i lythyr gael ei anfon at Elaine | 1. **Introduction and Welcome** Cllr Joan Butterfield, Chair of Denbighshire County Council, welcomed members to the meeting. Cllr Butterfield stressed the importance of the work of SACREs in the fields of RE, collective worship, and spiritual development. She also praised the good work of WASACRE which included its dialogue with the Welsh Assembly Government, its presentations and symposia, and enjoined members to continue with their good work.<br><br>2. **Quiet Reflection** The Chair formerly welcomed members to the meeting and drew attention to the International Eisteddfod held in Llangollen, the celebration of John Calvin's birth 500 years ago, and the loss of Handel Morgan. Members stood for a few moments to remember his life and contribution to the religious education.<br><br>3. **Apologies** Apologies were received from Christine Abbas, Helen Gibbon, Meinir Loader, Tegid Roberts, N.C. Richter, Nigel Steele-Mortimer, Rheinallt Thomas, Sue Cave, Jen Malcolm, Julie Pugh, and David Williams, G. Grantvg.<br><br>4. **Minutes of the meeting held at Bridgend on 13 March, 2009** 5(d) 'Griffiths' should read 'Davies'. The minutes were accepted as an accurate record of the meeting.<br><br>5. **Matters Arising** Point 5(b): Elaine Edwards, General Secretary of UCAC, has produced updated and corrected information on collective worship in schools in *Yr Athro* (No.2, April 2009). The Chair asked for a letter to be sent to Elaine Edwards to thank her for the response to the |

| | |
|---|---|
| Edwards i ddiolch iddi am yr ymateb i gais CCYSAGauC.<br>Pwynt 5(c): Yr oedd rhifyn y gwanwyn o *Newyddion AG* wedi ei anfon allan ym mis Mai, ac yr oedd Sali Roberts, Golygydd *Newyddion AG*, yn gobeithio y byddai rhifyn yr haf ar gael cyn diwedd tymor yr haf.<br>Pwynt 5(d): Cadarnhawyd bod adnoddau'r Gynhadledd Ôl-16 wedi eu cylchredeg i'r holl ysgolion. Diolchwyd i Gavin Craigen am ei rôl yn y broses hon. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Denize Morris, Swyddog Pwnc APADGOS ar gyfer AG, i gynnig sylwadau ar ddogfen gyfarwyddyd APADGOS ynglŷn ag AG ar gyfer disgyblion 14 i 19 oed, a oedd wedi ei chyflwyno ar ffurf drafft yn y Gynhadledd Ôl-16 ac wedi ei chyhoeddi'n ddiweddar. Dywedodd Denize Morris fod y ddogfen wedi cael derbyniad cadarnhaol, a'i bod yn ddefnyddiol ar gyfer helpu ysgolion i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm 14–19. Yr oedd y ddogfen yn nodi arfer da, yn darparu astudiaethau achos, ac yn cynnig nifer o batrymau ar gyfer cynnwys AG yn y gwahanol lwybrau dysgu. Diolchodd Carys Thomas i APADGOS am gynhyrchu adnodd mor ddefnyddiol.<br>Pwynt 5(e): Cyhoeddwyd y byddai Tania ap Siôn a Gavin Craigen yn cynrychioli CCYSAGauC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr.<br>Pwynt 6: Rhoddodd Gavin Craigen yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynglŷn â'r arweiniad i'r Cylchlythyr a oedd wrthi'n cael ei ysgrifennu yn Lloegr. Atgoffodd yr aelodau fod un o gwestiynau CCYSAGauC i'r Gweinidog, Jane Hutt, ym mis Tachwedd 2008, wedi holi ynglŷn â'r sefyllfa mewn perthynas â chylchlythyr 10/94 yng Nghymru. Cadarnhaodd fod cyfarwyddyd anstatudol ynglŷn â'r Cylchlythyr wedi ei gynhyrchu bellach ar gyfer Lloegr, ac argymhellodd y dylai grŵp bychan o gynrychiolwyr CCYSAGauC edrych ar y ddogfen gyda'r nod o gyflwyno cynllun busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynnal gweithgarwch cyffelyb yng Nghymru. Yr oedd y ddogfen gyfarwyddyd ar gyfer Lloegr yn darparu crynodeb defnyddiol iawn o'r holl | WASACRE request.<br>Point 5 (c): The spring edition of *RE News* was sent out in May and Sali Roberts, Editor of *RE News*, hoped that the summer edition would be available before the end of the summer term.<br>Point 5(d): It was confirmed that the Post-16 Conference resources had been circulated to all schools. Gavin Craigen was thanked for his role in this. The Chair invited Denize Morris, Subject Officer for RE, DCELLS, to comment on the DCELLS guidance document for RE for 14 to 19-year-olds which was presented in draft form at the Post-16 Conference and has been recently published. Denize Morris said that the document had been received positively and it was useful for helping schools to plan for the 14-19 curriculum. The document identified good practice, provided case studies, and offered a number of models for including RE in the various learning pathways. Carys Thomas thanked DCELLS for producing such a useful resource.<br>Point 5(e): It was announced that Tania ap Siôn and Gavin Craigen would represent WASACRE on the RE Council for England and Wales.<br>Point 6: Gavin Craigen updated members regarding the guidance on the Circular which was being written in England. He reminded members that one of the WASACRE questions to the Minister, Jane Hutt in November 2008, had asked about the situation in relation to 10/94 in Wales. He confirmed that non-statutory guidance on the Circular had now been produced for England and recommended that a small group of WASACRE representatives should look at the document with the aim of presenting a business plan to the Welsh Assembly Government for a similar activity to take place in Wales. The guidance document for England provided a very useful summary of all the processes involved in RE. Members were all in favour of this proposal.<br>Point 7: The Chair updated members on developments in the reconfiguration of the |

| | |
|---|---|
| brosesau a oedd yn ynghlwm wrth AG. Yr oedd yr holl aelodau o blaid y cynnig hwn. Pwynt 7: Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynglŷn â datblygiadau yn y broses o ad-drefnu'r sector HAGA yng Nghymru. Cadarnhaodd fod holl HAGA uwchradd Coleg Prifysgol y Drindod yn cael ei drosglwyddo i Abertawe. Yr oedd y cwrs HAGA uwchradd ar gyfer AG yn parhau i gael ei ddarparu ym Mhrifysgol Bangor. Yn ychwanegol at hynny, yr oedd Coleg Prifysgol y Drindod a Phrifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan yn cyfuno. Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'n cyflawni rôl newydd fel Cyfarwyddwr y Gyfadran Gyswllt yn y strwythur hwn. Diolchodd i bawb a oedd wedi cyfrannu i'r cwrs HAGA yng Ngholeg y Drindod. | ITET sector in Wales. He confirmed that all Trinity University College's secondary ITET was being transferred to Swansea. The secondary ITET course for RE continues at Bangor University. In addition, Trinity University College and University of Wales, Lampeter were merging. The Chair announced his new role as Director of the Associate Faculty within this structure. He thanked all those who had contributed to the ITET course at Trinity. |
| 6. **Gohebiaeth**<br>Dosbarthwyd y rhestr ohebiaeth ganlynol i'r aelodau: | 6. **Correspondence**<br>The following list of correspondence was distributed to members: |
| 18.04.09 — Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: cyfarfod rhwng Brian Gibbons a chynrychiolwyr CCYSAGauC | 18.04.09 Jane Hutt AM, Minister for Children, Lifelong Learning and Skills: meeting between Brian Gibbons and WASACRE representatives |
| 30.04.09 — Daryl Kent, Cymorth Tîm, LlCC: ymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Gyfan | 30.04.09 Daryl Kent, Team Support, WAG: response to the All Wales Community Cohesion Strategy consultation |
| 01.05.09 — Rhian Linecar, Cytûn: llythyrau i'r GYSAG'au yn rhinwedd ei swydd fel ymgynghorydd i Gyngor Eglwysi Rhyddion Cymru | 01.05.09 Rhian Linecar, Cytûn: letter to SACREs as ecumenical adviser to the Free Church Council of Wales |
| 05.05 09 — Harriet Crabtree, Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU: gwahoddiad i gynhadledd 'sefydliadau rhyng-ffydd lleol a ChYSAG'au sy'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo dealltwriaeth a chydlyniant cymunedol', Coventry, 12 Mehefin 2009 | 05.05 09 Harriet Crabtree, Director, Interfaith Network for the UK: invitation to 'Local inter faith organisations and SACREs working together for understanding and community cohesion', Coventry, 12 June 2009 |
| 07.05.09 — Dafydd Williams, GDC Cymru: adnoddau newydd ar gyfer AG ar y wefan | 07.05.09 Dafydd Williams, NGfL Cymru: New resources for RE on website |
| 15.06.09 Brian Gates, Cadeirydd Cyngor AG Cymru a Lloegr: prosiect cydlyniant | 15. 06.09 Brian Gates, Chair of the RE Council for England and Wales: community cohesion project |

| | |
|---|---|
| cymunedol<br><br>Mewn perthynas â'r ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Harriet Crabtree (5 Mai 2009), yr oedd Tania ap Siôn wedi cynrychioli CCYSAGauC yn y digwyddiad rhyng-ffydd yn Coventry, fel Panelydd. Yr oedd Rhwydwaith Rhyng-ffydd y DU wedi cynnal arolwg o fudiadau rhyng-ffydd (yng Nghymru a Lloegr) a ChYSAG'au (yn Lloegr) yn ddiweddar, er mwyn canfod ym mha ffyrdd yr oedd y ddau grŵp yn cydweithio i hyrwyddo dealltwriaeth a chydlyniant cymunedol. Yr oedd canlyniadau'r arolwg wedi eu cyflwyno yn y digwyddiad, ynghyd ag enghreifftiau o arfer da, ac yr oedd gweithdai wedi trafod materion a oedd yn codi o'r arolwg. Canmolodd Tania ap Siôn y digwyddiad, a gofynnodd a ellid cynnal arolwg cyffelyb yng Nghymru. Yr oedd wedi gofyn am gopi o'r holiadur er mwyn i'r mater allu cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.<br><br>Mewn perthynas â'r ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth Brian Gates ar 15 Mehefin 2009, dywedodd Tania ap Siôn fod Cyngor AG Cymru a Lloegr wedi ennill tendr DCSF (yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd) ar gyfer datblygu prosiect mawr yn Lloegr ynglŷn ag AG a chydlyniant cymunedol, a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno cais am i Gymru gael ei chynnwys yn y prosiect. Atgoffodd Tania ap Siôn yr aelodau o'r cwestiwn a ofynnwyd i'r Gweinidog, Jane Hutt, ym mis Tachwedd 2008, ynglŷn â rôl AG yn yr agenda cydlyniant cymunedol, ac o'i berthnasedd yn y datblygiad diweddar hwn. Yr oedd cyfarfod yng Nghaerdydd wedi ei drefnu rhwng Brian Gates, cynrychiolwyr APADGOS a Thania ap Siôn er mwyn trafod estyniad posibl i'r prosiect i gynnwys Cymru. Yn y cyfarfod hwn, byddai materion penodol a oedd yn berthnasol i Gymru'n cael eu pwysleisio — er enghraifft, anghenion iaith, ystyriaethau daearyddol, a gwahanol faterion polisi a chwricwlwm. | In relation to the correspondence received from Harriet Crabtree (5 May 1009), Tania ap Siôn represented WASACRE at the interfaith event in Coventry as a Panelist. The Interfaith Network for the UK had recently conducted a survey of interfaith organisations (in England and Wales) and SACREs (in England) to ascertain the ways in which both worked together to promote understanding and community cohesion. Results from the survey were presented at the event with examples of good practice, and workshops explored issues arising from the survey. Tania ap Siôn praised the event and asked whether a similar survey could be conducted in Wales. She has asked for a copy of the questionnaire in order that the issue can be considered in the next Executive meeting.<br><br>In relation to the correspondence received from Brian Gates on 15 June 2009, Tania ap Siôn reported that the RE Council for England and Wales had won a DCSF tender for developing a large project in England concerning RE and community cohesion, and that the Welsh Assembly Government had put in a request for Wales be included in the project. Tania ap Siôn reminded members of the question posed to the Minister, Jane Hutt in November 2008, concerning the role of RE in the community cohesion agenda, and its relevance in this recent development. A meeting had been arranged in Cardiff between Brian Gates, DCELLS representatives and Tania ap Siôn to explore the possible extension of the project to include Wales. In this meeting, specific issues relevant for Wales would be emphasised, for example, language needs, geographical issues, and different policy and curriculum matters. |
| 7. **Cyflwyniad gan Vicky Barlow: 'R.E. and the More Able and Talented'.** I gychwyn, cyfeiriodd Vicky Barlow at y broblem o | 7. **Presentation by Vicky Barlow: 'R.E. and the More Able and Talented'** Vicky Barlow initially raised the problem of |

| | |
|---|---|
| gategoreiddio disgyblion yn gynnar yn eu hoes, drwy gysylltu detholiadau o adroddiadau ysgol â phobl adnabyddus. Cymharodd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion 'mwy galluog a thalentog' yng Nghymru a Lloegr. Yn Lloegr, yr oedd y maes hwn yn cael ei ariannu'n dda, sefyllfa nad oedd yn cael ei hadlewyrchu yng Nghymru. I ryw raddau, yr oedd hyn wedi cael canlyniad cadarnhaol yng Nghymru, gan fod yna ganolbwyntio ar brofiadau dydd-i-ddydd yn y dosbarth yn hytrach nag ar yr hyn oedd yn digwydd y tu allan i oriau ysgol arferol. Yng Nghymru, amcangyfrifid bod oddeutu 20% o'r boblogaeth yn 'fwy galluog a thalentog' (o'u cymharu â 5–10% yn Lloegr, a oedd yn gweithio yn ôl patrwm gwahanol). Dylai fod gan bob AALl ganllawiau polisi ar gyfer 'disgyblion mwy galluog a thalentog'. Pwysleisiodd Vicky bwysigrwydd deall yr ymadrodd 'mwy galluog a thalentog' mewn ystyr eang iawn, na ddylid ei gyfyngu i botensial a llwyddiant academaidd yn unig, a deall pwysigrwydd darparu 'cyfleoedd cyfoethocach ac estynedig ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu eu galluoedd mewn un neu ragor o feysydd'. Pe deëllid yr ymadrodd 'mwy galluog a thalentog' yn y termau eang hyn, yna'r oedd yn debygol y byddai mwyafrif ymysg y disgyblion yn 'fwy galluog a thalentog' mewn mwy nag un ffordd. Nid oedd mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn dosbarth yn weithgarwch ymrannol, ond yn hytrach yn un a oedd yn hanfodol ar gyfer addysgu a dysgu effeithiol. Aeth Vicky ymlaen i drafod beth oedd nodweddion y 'mwy galluog a thalentog' yng nghyd-destun AG; sut i ddatblygu potensial yn berfformiad; ymestyn a chyfoethogi dysgu; gwahanol enghreifftiau o waith yn Wrecsam a mannau eraill; a chyfleoedd y tu hwnt i'r dosbarth. Darparwyd fersiynau taflen o'r Cyflwyniad PowerPoint ar gyfer yr aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i Vicky Barlow am y cyflwyniad symbylol. | categorising pupils early in their lives by linking extracts from school reports to well-known figures. She compared the provision for 'more able and talented' pupils in Wales and England. In England, the area was financially very well funded, which is a situation not reflected in Wales. In some respects, this has had a positive outcome in Wales because there has been a focus on day-to-day classroom experiences rather than a focus on what happens outside usual school hours. In Wales around 20% of the population has been estimated to be 'more able and talented' (compared to 5-10% in England which works according to a different model). Each LEA should have policy guidelines for 'more able and talented pupils'. Vicky emphasised the importance of understanding 'more able and talented' in a very broad sense, which should not be limited to academic potential and achievement alone, and the importance of providing these pupils with 'enriched and extended opportunities across the curriculum in order to develop their abilities in one or more areas'. If 'more able and talented' is understood in these broad terms, then a majority of pupils would probably be 'more able and talented' in one or more ways. Addressing the needs of individuals within a classroom was not a divisive activity but one essential for effective teaching and learning. Vicky then discussed what the 'more able and talented' looked like in RE, how to develop potential into performance, extending and enriching learning, different practical examples of work in Wrexham and elsewhere, and opportunities beyond the classroom. Handouts of the PowerPoint presentation were made available to members. The Chair thanked Vicky Barlow for the stimulating presentation. |
| 8. **Arddangos Adnoddau AG** Rhannodd Gavin Craigen gyda'r aelodau y pecyn adnoddau newydd, 'Pobl, Credoau a | 8. **Showcase of R.E. Resources** Gavin Craigen shared with members the new DCELLS-sponsored 'People, Beliefs and |

| | |
|---|---|
| Chwestiynau', a noddwyd gan APADGOS ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Yr oedd y pecyn adnoddau'n cynnwys pedwar llyfr mawr (yn ymdrin â thair stori o'r Beibl ac un stori Hindŵaidd), CR-ROM gyda nodiadau i athrawon a chanllawiau y gellid eu defnyddio ar y bwrdd gwyn, a chardiau adnodd.<br><br>Rhannodd Tania ap Siôn gyda'r aelodau y *Bwletin AG* newydd a oedd wedi ei gynhyrchu gan Ganolfan y Santes Fair yn Llyfrgell Deiniol Sant. Yr oedd *Bwletin AG* yn newyddlen electronig rad ac am ddim a oedd yn tynnu sylw at newyddion perthnasol ar gyfer ymarferwyr AG yng Nghymru. Gofynnodd TaS i'r aelodau dynnu sylw CYSAG'au i'r adnodd hwn. Rhannodd hefyd ddwy gyfres o lyfrau straeon Cyfnod Allweddol Un a gyhoeddid gan RMEP, ac a oedd ar gael fel Llyfrau Mawrion neu lyfrau disgyblion: y gyfres *Stories to Remember* (a oedd yn ymdrin â 6 thraddodiad ffydd) a'r gyfres *Places of Worship* (a oedd yn ymdrin â 6 thraddodiad ffydd).<br>Denize Morris: Bellach yr oedd adnodd e-glipiau'r BBC wedi ei gwblhau, ac yr oedd yn cael ei anfon allan yn rhad ac am ddim i ysgolion.Yr oedd DVD Tinopolis [CA3] i fod i gael ei lansio ym Medi 2009. Yr oedd y Ganolfan Ddiwylliannol Iddewig yn Llundain yn dosbarthu Llawlyfr (Nicholas Winton) a oedd ar gael i ysgolion yng Nghymru hefyd. | Question' resource pack for Foundation Phase Pupils. The resource pack comprised four big books (covering three Bible stories and one Hindu story), a CD ROM with teachers' notes and guidance which can be used on the whiteboard, and resource cards.<br><br>Tania ap Siôn shared with members the new *RE-Bulletin* produced by the St Mary's Centre at St Deiniol's Library. *RE-Bulletin* is a free electronic newsletter highlighting relevant news for RE practitioners in Wales. She asked members to draw the attention of SACREs to this resource. She also shared two new key stage one story book series published by RMEP available as Big Books or pupils' books: *Stories to Remember* series (which covers 6 faith traditions) and *Places of Worship* series (which covers 6 faith traditions).<br>Denize Morris: The BBC e-clips resource had now been completed and was being sent out free to schools. The Tineopolis DVD [KS3] is due to be launched in September 2009.<br>The Jewish Cultural Centre in London is distributing a Handbook (Nicholas Winton) which is also available to school in Wales. |
| 9. **Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 7 Mai, 2009** Derbyniodd yr aelodau gopïau o'r adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith. Diolchodd Mairwenna Lloyd i'r aelodau am y llythyr yr oedd wedi ei dderbyn gan GCYSAGauC yn mynegi gwerthfawrogiad o'i gwaith ymroddgar ar y Pwyllgor Gwaith ac o'i rôl fel cynrychiolydd CCYSAGauC ar Gyngor AG Cymru a Lloegr. | 9. **Report from the Executive Committee held on 7 May, 2009** Members received copies of the report of the Executive meeting. Mairwenna Lloyd thanked members for the letter she received from WASACRE in appreciation of her dedicated work on the Executive and her role as WASACRE representative on the RE Council for England and Wales. |
| 10. **Asesiadau Athrawon yn CA3: Gavin Craigen** Rhoddodd Gavin Craigen, y Prif Safonwr ar gyfer Asesiadau Athrawon mewn AG CA3, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y maes hwn. Nododd fod APADGOS yn trin AG yn | 10. **KS3 Teacher Assessment: Gavin Craigen** Gavin Craigen, Chief Moderator for Teacher Assessment in KS3 RE, updated members on plans for this area. He noted that DCELLS was treating RE in the same way as other subjects in the curriculum |

| | |
|---|---|
| yr un modd â phynciau eraill yn yr adolygiad o'r cwricwlwm; yr oedd hyn yn ddatblygiad arwyddocaol i'r pwnc. Eglurodd mai nod y dasg oedd sicrhau cydraddoldeb rhwng asesiadau athrawon drwy ddefnyddio'r Lefelau yn CA3 ar draws Cymru, yn ogystal â'r dystiolaeth a gynhyrchid i ategu asesiadau athrawon. Yr oedd Prif Safonwr a Dirprwy Brif Safonwr ar gyfer AG eisoes wedi eu penodi, a byddai safonwyr eraill yn cael eu penodi o fis Medi ymlaen. Yr oedd y gwaith, ar hyn o bryd, ar ganol y cam ymchwiliol, gan edrych ar yr hyn yr oedd athrawon yn ei wneud wrth asesu. Yr oedd CBAC eisoes wedi cynhyrchu canllawiau cyffredinol, generig ynglŷn ag asesu; yr oedd y rhain ar gael ar wefan CBAC, a'r nod oedd cynnwys canllawiau neilltuol i'r pwnc ynglŷn â'r ddogfen. Yn rhannol, yr oedd AG wedi ei chynnwys yn y broses oherwydd bod y 22 Awdurdod Lleol i gyd naill ai wedi addasu neu wedi mabwysiadu Fframwaith APADGOS ar gyfer AG; yr oedd hyn yn ei gwneud yn bosibl edrych ar AG o safbwynt Cymru gyfan. O'r flwyddyn Medi 2009 – Gorffennaf 2010 ymlaen, byddai'r cynllun peilot yn cael ei redeg, a byddai llythyr yn cael ei anfon i Awdurdodau Lleol yng Nghymru'n gofyn am ganfod ysgolion a oedd yn fodlon bod yn rhan o'r peilot. Disgwylid y byddai o leiaf un ysgol o bob ALl. Byddai cynadleddau lledaenu'n cael eu cynnal (ar 23 Hydref 2009 yn Llandudno, ac ar 2 Tachwedd yng Nghaerdydd). O fis Medi 2010 ymlaen, byddai ysgolion ledled y wlad yn cymryd rhan dros gyfnod o ddwy flynedd — byddai cyfranogiad yn wirfoddol, ond y gobaith oedd y byddai ysgolion yn ymateb yn gadarnhaol i'r gwahoddiad. Cydraddoldeb mewn asesiadau athrawon yn unol â'r Lefelau. Awgrymwyd y byddai Gavin yn adrodd yn ôl i GCYSAGauC wedi i'r cyfnod peilot gael ei gwblhau. | review, which was a significant development for the subject. He explained that the aim of the task was to ensure parity in teacher assessment using the Levels at KS3 across Wales as well as the evidence produced to support teacher assessments. A Chief Moderator and Deputy Chief Moderator for RE have already been appointed and other moderators would be appointed from September onwards. The work was currently in the investigative phase, looking at what teachers do in assessment. WJEC have already produced general, generic guidance on assessment which is available on the WJEC website and the aim is to include subject-specific guidance to the document. RE has been included in the process partly because all 22 Local Authorities had either adapted or adopted the DCELLS Framework for RE which makes it possible to look at RE from a nationwide perspective. From September 2009-July 2010 the pilot scheme will run and a letter will be sent to LAs in Wales asking for the identification of schools willing to be part of the pilot. It is expected that there will be at least one school from each LA. Dissemination conferences will be held (23 October 2009, Llandudno and 2 November, 2009, Cardiff). From September 2010 schools nationally will be involved over a two-year period – uptake would be voluntary but it was hoped that schools would respond positively to the invitation. Parity in teacher assessment according to the Levels. It was suggested that Gavin would report back to WASACRE after completion of the pilot phase. |
| 11. **U.F.A.** Nid oedd unrhyw eitemau. | 11. **A.O.B.** There were no items. |

**Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llangollen ar 24 Mehefin 2009 / *Minutes of the AGM held at Llangollen, 24 June 2009***

| **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn Llangollen ar 24 Mehefin 2009** | **Minutes of the AGM held at Llangollen, 24 June 2009** |
|---|---|
| 1. **Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn yr Wyddgrug ar 26 Mehefin 2008.** Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.<br><br>2. **Materion yn Codi** *Tudalen 1, pwynt 2*: rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y byddai Estyn yn penodi unigolyn gyda chyfrifoldeb am AG yng nghanol mis Gorffennaf 2009.<br>*Tudalen 4, pwynt 6*: rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau fod David Williams (Abertawe), aelod o'r Pwyllgor Gwaith, wedi bod yn dioddef problemau gyda'i gefn, ac y byddai cerdyn yn cael ei anfon ato.<br><br>3. **Adroddiad CCYSAGauC am 2008–09** Gwnaeth y Cadeirydd y sylw fod 2008–09 wedi profi'n gyfnod prysur i'r Pwyllgor Gwaith. Derbyniodd a chymeradwyodd yr aelodau adroddiad y Pwyllgor Gwaith.<br><br>4. **Adroddiad y Trysorydd** Cyflwynodd y Trysorydd gopïau o'r adroddiad am y flwyddyn ariannol 2008/2009 i'r aelodau. Yn ystod 2008–09, bu gwariant £4,477.96 yn fwy na'r incwm; yr oedd hyn yn newid sylweddol o'i gymharu â sefyllfa 2007–08, pan fu incwm £644.03 yn fwy na'r gwariant. Y rheswm am y sefyllfa anghyffredin hon oedd y gefnogaeth ariannol sylweddol yr oedd CCYSAGauC wedi ei rhoi i'r Gynhadledd Ôl-16 ym mis Hydref 2008. Cytunwyd bod y Gynhadledd yn ddefnydd buddiol o gyllid CCYSAGauC. Fodd bynnag, yr | 1. **Minutes of the Annual General Meeting held at Mold, 26 June 2008** The minutes were accepted as a correct record.<br><br>2. **Matters Arising** *Page 1, point 2*: the Chair informed members that Estyn would appoint a person with responsibility for RE in mid-July 2009.<br>*Page 4, point 6*: the Chair informed members that David Williams, member of the Executive (Swansea), had been experiencing back problems and a card would be sent to him.<br><br>3. **WASACRE Report for 2008-09** The Chair commented that 2008-09 had proved to be a busy period for the Executive. Members received and accepted the Executive report.<br><br>4. **Treasurer's Report** The Treasurer presented members with copies of the report for 2008/2009 financial year. During 2008/2009, expenditure exceeded income by £4,477.96 which was a significant change from 2007/2008 when income exceeded expenditure by £644.03. This unusual situation was due to the considerable financial support WASACRE gave to the Post-16 Conference in October 2008. It was agreed that the Conference was a worthwhile use of WASACRE finances. However, the accounts remained in a healthy state (the financial year |

| | |
|---|---|
| oedd y cyfrifon yn parhau i fod mewn cyflwr iach (yr oedd y flwyddyn ariannol wedi dechrau gyda gweddill o £15,613.16, ac wedi dod i ben gyda gweddill o £11,135.20). Nododd y Trysorydd fod pob CYSAG wedi talu ei danysgrifiad. Pwysleisiodd hefyd ei bod yn bwysig i GCYSAGauC barhau â'i gweithgareddau amlwg, fel yr oedd y Gymdeithas yn ei wneud ar hyn o bryd. Gan gyfeirio at rai manylion yn yr adroddiad, tynnodd y Trysorydd sylw arbennig at y pwyntiau canlynol: byddai honoraria'r Ysgrifennydd yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon y flwyddyn ddilynol; byddai costau ysgrifenyddol ar gyfer 2008–09 yn cael eu hychwanegu hefyd unwaith y deuai'r anfonebau i law. Cafodd y cyfrifon am 2008–09 eu derbyn a'u mabwysiadu gan yr aelodau.<br><br>Cyngor y Trysorydd oedd y dylid cynnal lefel y balansau er mwyn galluogi CCYSAGauC i gynorthwyo AG ac addoli ar y cyd mewn modd priodol. Derbyniodd yr aelodau'r argymhelliad y dylai CYSAG'au dalu tanysgrifiad o £383 am 2009–10 (gan gynnwys codiad o 2.5% ar gyfer chwyddiant ). Derbyniodd yr aelodau hefyd yr argymhelliad y dylai treuliau teithio a threuliau cynhaliaeth ar gyfer swyddogion y Gymdeithas a siaradwyr gael eu cadw ar y lefelau cyfredol.<br><br>5. **Sylwadau'r Cadeirydd Ymadawol** Mynegodd y Cadeirydd Ymadawol ei siom nad oedd yn gallu cwblhau ei dymor fel Cadeirydd fel yr oedd wedi gobeithio gwneud. Diolchodd i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu cefnogaeth, ar lefel bersonol ac ar lefel broffesiynol. Diolchodd hefyd i'r Ysgrifennydd am ei hymagwedd ddymunol a phroffesiynol tuag at ei gwaith. Nododd fod hwn yn gyfnod arbennig o heriol ar gyfer addysg grefyddol am ddau reswm. Yn gyntaf, yr oedd angen i'r rhai a oedd â diddordeb yn y pwnc barhau i fod yn effro i'r hyn a oedd yn digwydd mewn ysgolion, ac yn barod i weithredu'n gyflym pan fyddai cyfle'n cynnig ei hun. Yr oedd cyhoeddi'r Meysydd Llafur Cytûn newydd ledled Cymru'n ddigwyddiad o bwys hanesyddol i'r pwnc, ac yr oedd angen dathlu manteision hyn. Hefyd, yr oedd cyfleoedd i AG gyfrannu at y Fagloriaeth Gymreig a Llwybrau Dysgu 14–19. | commenced with a balance of £15,613.16 and ended with a balance of £11,135.20. The Treasurer noted that every SACRE had paid its subscription. He also stressed that it was important for WASACRE to maintain its high-profile activities which the Association was currently doing. With reference to some details in the report, the Treasurer highlighted the following points: the Secretary's honoraria would be included in the following year's accounts; secretarial costs for 2008/2009 would also be added once invoices had been received. The accounts for 2008/2009 were received and adopted by members.<br><br>The Treasurer advised that the balances be maintained in order to enable WASACRE to support RE and collective worship appropriately. Members accepted the recommendation that SACREs should pay £383 in subscription for 2009/2010 (reflecting a rise of 2.5% for inflation). Members also accepted the recommendation that travelling expenses and subsistence expenses for officers of the Association and speakers be maintained at the current levels.<br><br>5. **Outgoing Chairman's comments** The Outgoing Chair noted his disappointment that he was unable to complete his term as Chair as he had hoped to do. He thanked Executive members for their support both personally and professionally. He also thanked the Secretary for her pleasant and professional approach to her work. He noted that it was a particularly challenging time for religious education for two reasons. First, those with an interest in the subject needed to continue to be alert to what was happening in schools and ready to act quickly when opportunity presented itself. The publication of the new Agreed Syllabi across Wales was of historic importance for the subject and there was a need to celebrate the advantages of this. Also, there were opportunities for RE to contribute to the Welsh Bac and 14-19 Learning Pathways. It was heartening to see Religious Studies grow as subject at GCSE and A-level, |

| | |
|---|---|
| Calonogol oedd gweld Astudiaethau Crefyddol yn tyfu fel pwnc TGAU a Safon Uwch, ond dylid nodi'r amrywiaeth ymysg y siroedd yn hyn o beth. Yr oedd yn bwysig cadw golwg ofalus ar ddigwyddiadau, ac ymateb i heriau lle'r oedd hynny'n bosibl, ar bob lefel. Yn ail, yr oedd y gymdeithas seciwlar hefyd yn cyflwyno her. Nid oedd popeth yn y gymdeithas seciwlar yn bygwth y bywyd crefyddol, ond yr oedd llawer o bobl yn cysylltu crefydd â ffwndamentaliaeth grefyddol ac, o ganlyniad, yn tanbrisio gwerth bywyd crefyddol. Felly, yr oedd yn bwysig bod CCYSAGauC a chyrff perthnasol eraill yn parhau i ymladd achos crefydd a dangos bod ffydd grefyddol amrywiol a dilys yn bodoli. Yr oedd hefyd yn bwysig cefnogi a herio athrawon AG i addysgu AG mewn modd gwybodus, cyffrous a chreadigol, yn enwedig wrth addysgu Cristnogaeth. Fel yr oedd Adroddiad Blynyddol CCYSAGauC wedi dangos, yr oedd y Gymdeithas wedi bod yn ymateb i'r heriau hyn. I gloi, estynnodd y Cadeirydd Ymadawol ei ddymuniadau gorau i'r Pwyllgor Gwaith, i aelodau'r Gymdeithas, ac i Michael Gray fel y Cadeirydd Olynol. | but the diversity evident among counties should be noted. It was important to keep a careful watch on events and to respond to challenges where possible at every level. Second, a challenge was also present from secular society. Not everything in secular society was threatening to religious life but many people connected religion with religious fundamentalism and, as a result, underplayed the value of religious life. Therefore, it was important for WASACRE and other relevant bodies to continue to fight the religious cause and to show that different and valid religious faith existed. It was also important to support and challenge RE teachers to teach RE in an informed, exciting and creative way, especially the teaching of Christianity. As the Annual Report for WASACRE demonstrated, the Association has been responding to these challenges. The Outgoing Chair concluded by extending his best wishes to the Executive Committee, Association members, and to Michael Gray as Incoming Chair. |
| 6. **Ethol Cadeirydd** Yn unol â chyfansoddiad y Gymdeithas, derbyniwyd yr Is-Gadeirydd, Michael Gray, fel y Cadeirydd Olynol newydd. Fel Cadeirydd Olynol, dymunodd Michael Gray'n dda i'r Cadeirydd Ymadawol, Vaughan Salisbury, yn ei yrfa newydd. Siaradodd am y rhai a gawsai ddylanwad arno yn ystod y tair blynedd ar ddeg y bu'n cynrychioli CYSAG Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yng nghyfarfodydd CCYSAGauC, gan gynnwys y diweddar Gynghorydd Handel Morgan, y diweddar Hywel Evans, Paul Morgan, Trefor Guy, Carys Thomas a Vicky Thomas. Diolchwyd i'r rhai a weithiai ar y tri phwyllgor yr oedd CYSAG'au yn eu cynnwys: athrawon; cynghorwyr; a chynrychiolwyr ffydd. Yn ychwanegol at hynny, diolchodd y Cadeirydd i'r Ysgrifennydd am ei gwaith, a mynegodd ei ddiolchgarwch am yr anrhydedd a'r fraint o allu gwasanaethu'r Gymdeithas. | 6. **Election of Chairman** In line with the Association's constitution, Vice Chair, Michael Gray was accepted as new Incoming Chair. As Incoming Chair, Michael Gray wished Outgoing Chair, Vaughan Salisbury well in his new career. He spoke about those who have been influential for him during the thirteen years that he has represented Caerphilly County Borough Council SACRE at WASACRE meetings and included the late Cllr Handel Morgan, the late Hywel Evans, Paul Morgan, Trefor Guy, Carys Thomas, and Vicky Thomas. Those who worked on the three committees which comprise SACREs were thanked: teachers; councillors; and faith representatives. In addition, he thanked the Secretary for her work and expressed his gratitude for the honour and privilege of being able to serve the Association. |
| 7. **Ethol Is-Gadeirydd** Derbyniwyd enwebiad Edward Evans (CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr) i swydd yr Is-Gadeirydd. | 7. **Election of Vice-Chair** The nomination of Edward Evans (Bridgend SACRE) to the position of Vice-Chair was accepted. |

| | |
|---|---|
| 8. **Ethol aelodau i'r Pwyllgor Gwaith** Derbyniwyd enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith ar gyfer Rheinallt Thomas (CYSAG Ynys Môn) a Brian Jones (CYSAG Sir Ddinbych).<br><br>9. **Dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd** Tymor yr Hydref: Rhondda Cynon Taf, 13 Tachwedd 2009. Tymor y Gwanwyn: Abertawe, 18 Mawrth 2010. Tymor yr Haf: Wrecsam, 24 Mehefin 2010.<br><br>10. **Rhestr aelodau'r Pwyllgor Gwaith** Michael Gray (Cadeirydd 2009–2011, CYSAG Caerffili); Tania ap Siôn (Ysgrifennydd/Cynrychiolydd ar y Cyngor AG, CYSAG Wrecsam); John Mitson (Trysorydd, CYSAG Powys); Edward Evans (Is-Gadeirydd, CYSAG Pen-y-bont ar Ogwr); Gavin Craigen (y cyn-Gadeirydd diweddaraf, yn cymryd lle Vaughan Salisbury/Cynrychiolydd ar y Cyngor AG); Gill Vaisey (Cynrychiolydd ar PYCAG); Rheinallt Thomas (CYSAG Ynys Môn, 2009–2012); Mary Parry (CYSAG Sir Gaerfyrddin, 2007–2010); Eirian Pierce (CYSAG Conwy, 2008–2010); Vicky Thomas (CYSAG Torfaen, 2008–2011); David Williams (CYSAG Abertawe, 2008–2011); Brian Jones (CYSAG Sir Ddinbych, 2009–2012). | 8. **Election of members to the Executive** Nominations for Rheinallt Thomas (Anglesey SACRE) and Brian Jones (Denbighshire SACRE) to the Executive Committee were accepted.<br><br>9. **Dates and venues of meetings** Autumn term: Rhondda Cynon Taf, 13 November 2009. Spring term: Swansea, 18 March 2010. Summer term, Wrexham, 24 June 2010.<br><br>**10. List of executive members** Michael Gray (Chair 2009-2011, Caerphilly SACRE)**;** Tania ap Siôn (Secretary/RE Council Representative, Wrexham SACRE); John Mitson (Treasurer, Powys SACRE); Edward Evans (Vice Chair, Bridgend SACRE)**;** Gavin Craigen (immediate past Chair *in lieu* of Vaughan Salisbury/RE Council Representative); Gill Vaisey (NAPfRE representative); Rheinallt Thomas (Anglesey SACRE, 2009-2012); Mary Parry (Carmarthenshire SACRE, 2007-2010); Eirian Pierce (Conwy SACRE, 2008-2010); Vicky Thomas (Torfaen SACRE, 2008-2011); David Williams (Swansea SACRE, 2008-2011); Brian Jones (Denbighshire SACRE, 2009-2012). |